


LLWYN CELYN, CWM-IOU ISAF

Mae dadansoddiad o bren Llwyn Celyn, adeilad rhestredig Gradd 1, wedi datgelu i'r tŷ gael ei godi ym 1420. Prin y mae wedi newid er diwedd yr 17eg ganrif, a'r cyfnod hwn yn bennaf y mae gwaith adfer Landmark yn ceisio ei adlewyrchu. Er gwaethaf yr holl ymchwilio, ni wyddom i sicrwydd bwy gododd y tŷ gwreiddiol yn Llwyn Celyn, na pham. Pan gafodd ei adeiladu fel rhan o ystad Priordy Llanddewi Nant Hodni, roedd Cymru newydd ddiodef cyfnod go drafferthus. Dilynwyd sawl ton o'r pla rhwng 1349 a 1400 gan ddirinistr dan ddwylo'r ddwy ochr elyniaethus yn ystod Gwrthryfel Owain Glyn Dŵr ym 1401-15. Ychydig iawn o esiamplau o bensaerniaeth werinol sydd wedi goroesi o'r cyfnod, ac fel tŷ preswyl mawr ei fri mae Llwyn Celyn o'r herwydd yn drysor mwy gwerthfawr byth.



Llwyn Celyn fel y'i hadeiladwyd ym 1420, gan ddangos y newidiadau a wnaed i'r tŷ neuadd yn y 1690au.

Mae Llwyn Celyn wedi cadw ei gynllun llawr canoloesol nodweddiadol. Ar y dechrau roedd ganddo neuadd ganolog â thair cilfach, agored i fyny hyd at drawstiau godidog y to, y codai'r mwg iddynt o'r tân yng nghanol y llawr. Ystyrir hwn yn dŷ sylweddol ei faint am y cyfnod, a'r neuadd oedd y gofod byw canolog i'r teulu i gyd. Eisteddai meistr y tŷ wrth fwrdd mawr ar y pen 'uchaf', a nodwedd brin yw'r fainc sefydlog sydd wedi goroesi yma. Ar ben 'isaf' y neuadd, y tu ôl i bared neu sgrîn o bren, rhedai coridor traws, a'r tu draw i hwnnw safai'r bwtri a'r pantri, lle y cedwid nwyddau gwlyb a sych yn y drefn honno.

Nodwedd angyffredin arall a oroesodd yn wyrthiol yw'r heulfa ddeulawr. Fe'i cyrhaeddid, mae'n debyg, drwy ddringo grisiau troellog tynn rhwng y waliau i fyny o'r neuadd. Er i'r grisiau ddiflannu erbyn hyn, daethpwyd o hyd i'r drws pigfain a arweiniai iddynt yn ystod y gwaith adfer. Darparai adain yr heulfa siambrau preifat hardd ar gyfer 'arglwydd' neu feistr y tŷ. Gellid ei chyrraedd hefyd ar y llawr isaf o ben uchaf y neuadd, trwy ddrws â gorddrws pren drosto â cherfiadau cain yn cynnwys dwy darian heb eu haddurno. Mae dau orddrws hyfrytach byth i'w gweld yn y coridor traws. Mae'r rhain i gyd yn nodwedd eithriadol mewn tŷ preswyl Cymreig.

Mae'r cwpl to a oroesodd yn fwy angyffredin fyth. Bwa sy'n cynnal y to yw cwpl, ac mae'r 'spere truss' yma'n fersiwn fwy addurnol ohono sy'n ymestyn i lawr i'r llawr isaf, ac ynddo agoriad sy'n creu mynedfa seremonïol i neuadd. Yn Llwyn Celyn, gellir gweld preniau'r cwpl o hyd yn y coridor traws. Cyn i'r simnai a adeiladwyd ei atal, roedd agoriad canolog yn y cwpl to hwn yn caniatáu golwg uniongyrchol ar y ddau orddrws braf yn y coridor traws o'r bwrdd uchel. Mae'n amlwg bod Llwyn Celyn wedi cael ei adeiladu ar gyfer un mawr ei fri, efallai i briordy Priordy Llanddewi ei hun hyd yn oed.

Mae hanes Llwyn Celyn ynghlwm wrth Briordy Awstinaidd Llanddewi Nant Hodni, a oedd piau'r tir lle y'i codwyd ers dechrau'r 12^{fed} ganrif. Diddymwyd y priordy ym 1538, ynghyd â Llanthony Secunda yng Nghaerloyw, yr oedd wedi cael ei gyfuno ag ef ym 1480. Erbyn hynny roedd Llanthony-yng-Nghymru'n dŷ crefyddol go ddryslud.

Prynwyd ystadau'r priordy ym 1546 gan gyfreithiwr cefnog o'r enw Nicholas Arnold, ac aros ym meddiant yr un teulu a wnaethant tan 1726. O hynny ymlaen bu Llwyn Celyn yn fferm dan ofal tenantiaid. Cyfnod o ffyniant angyffredin oedd yr 16eg a'r 17eg ganrifoedd i i denantiaid ffermydd ystad Llanthony. Diolch i rentiau isel ar brydlesi copihold hir a phrisiau cynyddol eu cynnyrch, arhosodd elw'r tir ym meddiant y tenantiaid yn hytrach na mynd i bocedi'r tîrfeddianwyr. Arweiniodd hyn at greu dosbarth o ffermwyr-denantiaid boneddig ac iwmyrn ffyniannus, annibynnol eu bryd. A hwythau'n ffermio llethrau serth, roedd ganddynt hawliau pori yn ogystal ar dir comin a gwastatioedd ar y brigau. Mae natur ddaearegol y mynyddoedd yn cynnig cerrig safonol ar gyfer adeiladu mewn blociau sy'n hollti'n naturiol. Golygai hyn y gallai'r ffermwyr godi ffermdai a thai allan cedyrn safonol, sydd i'w gweld hyd heddiw ar draws y dyffryn.

Un o'r llinachau ffermio pwysig hyn oedd y teulu Watkins o Lwyn Celyn, a ymgwymerodd â gwelliannau sylweddol yn y tŷ tua 1690. William Watkin, neu ei frawd Thomas efallai, a osododd nenfwd yng ngofod agored y neuadd i greu siambr fawr uwchben ar y llawr cyntaf newydd. Esgynnid iddi i fyny grisiau newydd o bren a osodwyd wrth ochr simnai newydd enfawr ar gyfer lle tân a ffwrn fara (y daethom o hyd iddi y tu cefn i le tân o'r 20^{fed} ganrif). Ar yr un adeg, ychwanegwyd cegin ar wahân wrth gefn y tŷ, a ffwrn fara arall. Codwyd tŷ anifeiliaid ac adeilad bach arall yn yr un cyfnod wrth ochr yr ysgubor ddyrnu (sydd felly yn hŷn na 1695), a mwy na thebyg y tŷ seidr a'r twlc mochyn hefyd. Y teulu Watkins a greodd Lwyn Celyn fel y'i gwelwn heddiw, ac ychydig a newidiodd ar ôl eu hamser hwy yn y tŷ. Roedd gan y fferm bellach yr holl adeiladau arferol a oedd eu hangen i fod yn hunangynhaliol: ffwrn ddyrnu, tŷ seidr, tŷ anifeiliaid, stablau, twlc moch a thai odyn ar gyfer sychu brag i facsu ac yd. Gellir casglu felly mai ffermio cymysg – tir â'r da byw – oedd yr arfer yma, gan wneud y gorau o gaeau ffrwythlon y dyffryn a thiroedd diffaith yr ucheldiroedd.

O ganol y 19eg tan ganol yr 20fed ganrif, y teulu Jasper a ffermiodd yn Llwyn Celyn. Ym 1958, fe brynwyd Llwyn Celyn gan eu perthnasau Tom ac Olive Powell, a'u meibion hwy, y perchnogion presennol Trefor a Lyndon, sy'n dal i ffermio'r tir o'i gwmpas o hyd. Erbyn yr 21ain ganrif, roedd adeiladau Llwyn Celyn wedi dirywio'n arw dan effaith canrifoedd o law a'r dŵr a ddisgynnai o'r llethrau. Yn 2007, aeth Cadw at y Landmark Trust i ofyn am gymorth. Trefnwyd cytundeb caffael cymhleth trwy gymorth grantiau oddi wrth Cadw a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a'i gwnaeth hi'n bosibl i adeiladu cartref newydd i'r teulu Powell.

Mae'r athroniaeth sy'n sail i'r gwaith atgyweirio ac adfer am gadw cymaint â phosibl o adeiledd gwreiddiol y tŷ, gan ddychwelyd iddo yr olwg a oedd arno tua 1700, yn syth ar ôl i'r nenfwd a'r simnai gael eu gosod yn y neuadd. Golygai hyn ddadwneud rhai o newidiadau'r 19^{eg} a'r 20^{fed} ganrifoedd. Rhoddodd prosiect adfer dros ddwy flynedd waith a phrofiad i lu o grefftwyr a pheirianwyr, a throsglwyddwyd crefftau a sgiliau traddodiadol i brentisiaid ac ymwelwyr fel ei gilydd. Cafodd muriau Llwyn Celyn eu tanategu yn y cefn a'u clymu'n anweledig at ei gilydd drwyddi draw â gwial resin; cafodd cyplau to gollyngedig a phreniau eraill eu sythu'n ofalus a'u had-osod yn eu lle dyledus â phegiau; cafodd y toi eu tynnu'n gyfangwbl a'u hail-osod gan ddefnyddio teils newydd o Gwm Olchon gerllaw. Cafodd pren pydredig ei docio yn ôl yn geidwadol fel y gellid sgarffio pren derw cadarn yn ei le.

Codwyd cerrig y lloriau i osod system gynhesu odanynt, a chodwyd bwylwr sglodion pren ym mloc yr hen stablau. Sefydlwyd system wely cyrs i drin carthffosiaeth a gwellhawyd y systemau draenio ar draws y safle. Prin y bu angen adnewyddu'r gwaith maen, ond cyflawnwyd cryn dipyn o waith ailbwyntio a phlastro, gan ddefnyddio mortar calch traddodiadol bob amser. Yn nes ymlaen, glanhawyd y paent du oddi ar y trawstiau a gorddrysau pren godidog. Daethpwyd o hyd i nifer o drysorau yn ystod y gwaith: yn ogystal â lle tân y neuadd a'r gilfach ar gyfer ffwrn Fictoriaidd yn y gegin bresennol, datgelwyd y drws bwaog cudd yn y neuadd, ynghyd â'r ffenestr a wynebai'r dde ar ail lawr adain yr heulfa. Darganfuwyd dau hen esgid ynghudd (i amddiffyn y lle rhag gwrrachod o bosibl), un ohonynt o'r 17eg ganrif, a gadawyd y rhain yn ofalus yn eu gorffwysfa dan y bargod.

Atgyweiriwyd tai allan Llwyn Celyn mewn modd sy'n sicrhau bod eu golwg ar y safle amlwg hwn yn newid cyn lleied â phosibl. Y tu mewn iddynt, fe wnaethom yr hyn oedd eisiau i hybu eu defnydd yn y dyfodol. Mae'r hen dŷ seidr bellach yn ystafell wely ac ystafell ymolchi; y drws nesaf iddo, mae'r hen olyn sychu brag (sydd dan glo'n barhaus) yn gartref heddiw i dŵr oeri er lles yr ystlumod, y buom yn ymdrechu trwy gydol y prosiect i fodloni eu hanghenion a'r gofyniad statudol i gydlynu â hwy. Mae gan yr ystlumod ofod wedi'i dwymo hefyd dan do'r tŷ seidr. Yn yr hen stablau, â graffiti llawn cymeriad yn dal i addurno eu drws hollt, y mae'r peirianwaith gwresogi a thrydanol.

Diolch i gefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, bu nifer sylweddol o bobl leol a gwirfoddolwyr yn chwarae eu rhan yn y prosiect. Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu drwy gydol y prosiect yn ystod pedair Wythnos Dreftadaeth wrth ei Gwaith, lle buont yn cofrestru i ddysgu a rhannu gwahanol sgiliau, gan blannu perthi newydd, helpu i atgyweirio waliau sychion, ailbwyntio, glanhau lloriau coblog, gwyngalchu ac yn y blaen.

Mae'r gymuned leol wedi chwarae ei rhan hithau ers dechrau'r prosiect. Ymgynghoriadau â'r gymuned a arweiniodd Landmark at weddnewid Ysgubor Ddyrnu'r 18fed ganrif gan greu mannau addysgol ac arddangosiadol cymunedol, gan gynnwys tŷ bynciau sylfaenol a fwriedir ar gyfer ymgeiswyr am Wobr Dug Caeredin. Mae hen feili'r defaid yn darparu lle delfrydol yn yr awyr agored ar gyfer y gweithgareddau crefft traddodiadol sy'n dal i ffynnu yn y dyffryn. Bydd ystafell ar agor yn ystod y dydd yn hen dŷ'r anifeiliaid i ddehongli hanes y dyffryn i gerddwyr ac ymwelwyr eraill. Mae partneriaethau wedi cael eu sefydlu â chyrff lleol, ynghyd â grŵp hanes lleol llewyrchus. Ac yn olaf, bu gennym bedwar artist preswyl yn ystod y prosiect: dau artist, llenor a ffotograffydd, a greodd rychwant o weithiau wedi'u hysbrydoli gan Llwyn Celyn.

Mae Channel 4 wedi cynhyrchu rhaglen ddogfennol ddwy-ran ar destun prosiect adfer Llwyn Celyn. Derbyniodd Llwyn Celyn ddau ymweliad hefyd gan Noddwr Landmark, eub y Tywysog Siarl; daeth am y tro cyntaf cyn i'r gwaith ddechrau ym mis Gorffennaf 2014 wedi i'r grant galluogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri gael ei gadarnhau, a'r eildro ym mis Gorffennaf 2018, wedi i waith adfer y prif dŷ ddod i ben. Ar ddiwrnod poeth iawn, plannodd y Tywysog goeden afalau yn y berllan, a honno'n amrywiad hynafol Cymreig o'r enw Brith Mawr. Efallai iddi dyfu yma'n draddodiadol.

Elusen adfer a chadw adeiladau yw'r Landmark Trust; mae'n achub adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl ac yn eu gosod ar rent fel mannau gwyliau i dalu am y gwaith o'u cadw a'u cynnal ar gyfer y dyfodol. Yn nhŷ Llwyn Celyn, sydd ar ben uchaf y safle, mae lle cysgu ar gyfer 8 o bobl. Mae'r Ysgubor Ddyrnu, sy'n sefyll ar wahân islaw, ar gael i'w rhentu i amryw ddibenion cymunedol ac addysgol. Os carech chi rentu Llwyn Celyn ar gyfer gwyliau, neu'r Ysgubor Ddyrnu i ddibenion eraill, ewch at www.landmarktrust.org.uk neu ffoniwch Swyddfa Holiadau Rhentu Landmark ar 01628 825 925.